Gellir defnyddio'r pwerau hyn hefyd i wneud Rheoliadau ynghylch cynnydd plant o'r fath, y camau nesaf yn eu cynnydd a'r addysgu a'r dysgu sydd eu hangen i wneud y cynnydd hwnnw.

Caiff y pwerau hyn roi swyddogaethau i bennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir; corff llywodraethu ysgol; yr athro sy'n gyfrifol am uned cyfeirio disgyblion;

pwylgor rheoli uned cyfeirio disgyblion; person sy'n darparu addysgu a dysgu i blentyn heblaw yn yr ysgol; darparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir; ac awdurdod lleol yng Nghymru a chymhwyso, addasu neu ddatgymhwyso darpariaethau a wneir gan y Bil hwn neu oddi tano.

Yn y sefyllfaoedd hyn, disgwylir i ddarparwyr gydweithio er mwyn penderfynu sut y bydd darpariaeth mewn sawl lleoliad yn rhyngweithio er mwyn i'r dysgwr gael cwricwlwm llawn. Bydd Rheoliadau hefyd yn disgrifio mecanwaith y broses hon yn fanylach yn ogystal â phennu disgwyliadau. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith oherwydd y nifer posibl o wahanol achosion yn hyn o beth. Bwriedir gweithio gyda gwahanol leoliadau i ddatblygu'r Rheoliadau hyn er mwyn sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael cwricwlwm llawn lle y bo'n bosibl.

## **Adran 70(1) – Pŵer i wneud darpariaeth ychwanegol i weithredu'r Ddeddf hon yn llawn**

### **Gweithdrefn: negyddol**

Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, mewn Rheoliadau, os byddant o'r farn bod angen gwneud hynny, neu ei bod yn briodol gwneud hynny, er mwyn rhoi'r ddarpariaeth a wneir gan y Bil, neu gan Reoliadau a wneir o dan y Bil, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, ar waith yn llawn. Gallant hefyd wneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed o dan amgylchiadau o'r fath.

Er enghraifft, nid yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 wedi cychwyn yn llawn eto. Bwriedir gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 fesul cam ac, o ganlyniad i hynny, erbyn mis Medi 2022, bydd rhai plant y bydd deddfwriaeth ADY bresennol yn dal i fod yn gymwys mewn perthynas â nhw, yn hytrach na Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Rydym wedi drafftio darpariaethau'r Bil ar y sail y bydd y system ADY yn gymwys (ac y bydd plant â chynlluniau AIG hefyd). Ar gyfer plant sy'n dal i fod yn rhan o'r system AAA pan ddaw darpariaethau'r Bil i rym, gellid gwneud darpariaeth drosiannol o dan y pŵer yn y fersiwn ddrafft o adran 70 o'r Bil er mwyn i ddatganiadau allu datgymhwyso cwricwlwm ysgol.



Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

01/09/2020

Annwyl Mick,

Ar 1 Medi gosodais fersiwn wedi'i diweddarau o Femorandwm Esboniadol Bil cwricwlwm ac asesu (Cymru).

Hoffwn dynnu sylw'r Pwyllgor at baragraffau 3.48 – 3.50 sy'n nodi'r math o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg y mae'n rhaid eu darparu ar gyfer pob categori o ysgol a'r rhesymau pam. Cytunwyd ar y diwygiad bach ond pwysig hwn i'r ddogfen gyda chyfreithwyr y Senedd.

Mae'r canlynol hefyd wedi cael ei ddiweddarau:

- Pennod 5 Tabl 5.1 llinell 70 (1) – disodli 'cadarnhaol drafft' gyda 'negyddol'
- Pennod 5 Tabl 5.2 llinell 33 (2) – yn lle '[J017A]' gyda '24'.

Yn gywir

**Kirsty Williams AS**  
Y Gweinidog Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Mick Antoniw AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

18/09/2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Awst 2020 gyda chwestiynau i mi ymateb iddynt cyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 5 Hydref.

Mae fy ymateb i'r cwestiynau a godwyd fel a ganlyn:

#### Hawliau Dynol

#### **C1. A ydych yn fodlon bod y Bil yn ei gyfanrwydd yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?**

Rwy'n fodlon bod y Bil yn ei gyfanrwydd yn gydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ("Hawliau'r Confensiwn").

#### **C2. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil i rieni allu tynnu eu plant allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg neu wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. A ydych yn fodlon bod hyn yn gydnaws â hawl rhieni i sicrhau bod eu hargyhoeddiadau crefyddol ac athronyddol yn cael eu parchu o dan Brotocol 1 Erthygl 2 (yr hawl i addysg) a'u hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd o dan Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol?**

Fel y noda'r cwestiwn, nid yw'r Bil yn rhoi'r hawl i dynnu plant allan o'r gwersi hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod pob plentyn yn cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Credaf fod materion sy'n ymwneud ag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn treiddio drwy bob rhan o'r gymdeithas a'u bod yn aml yn codi materion cymhleth y gall fod yn anodd i bob un ohonom, yn enwedig plant, fynd i'r afael â hwy. Credaf fod gan ysgolion ran

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru)  
[Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales](mailto:Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



i'w chwarae wrth helpu dysgwyr i ddeall y materion hynny a mynd i'r afael â hwy. Caiff hyn ei gyflawni drwy ddarparu gwell dealltwriaeth o'r ddau faes hyn o safbwynt gwahanol grefyddau, credoau anghrefyddol a syniadau athronyddol o fewn cyd-destun cymdeithas fodern, amlddiwylliannol ac amlyfydd.

Mae'r darpariaethau ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn faes arbennig o gymhleth yn y Bil ac felly nodaf isod grynodedb o'r hyn y mae'n ofynnol i ysgolion ei wneud mewn perthynas ag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn y Bil newydd yn ôl categori o ysgol. Rwyf wedi mynd ati i drafod pam mae'r dull gweithredu hwn yn gydnaws â Phrotocol 1 Erthygl 2 (A2P1), ac Erthygl 9 ac Erthygl 14 fel y sonnir uchod.

*Ysgolion cymunedol ac ysgolion sefydledig a gwirfoddol heb gymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg gael ei gynllunio gan ystyried y maes llafur cytunedig<sup>1</sup>;
- Mae'n rhaid hefyd ystyried unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil wrth gynllunio'r ddarpariaeth.

*Ysgolion sefydledig a gwirfoddol a reolir â chymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
  - Mae'n rhaid i'r cwricwlwm gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig.
  - Os nad yw'r ddarpariaeth honno'n gydnaws â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol, mae'n rhaid i'r cwricwlwm hefyd wneud darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n gydnaws â gweithred ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol");
- Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg hefyd gael ei chynllunio gan ystyried unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil;

---

<sup>1</sup> Y maes llafur cytunedig yw'r maes llafur ar gyfer addysg grefyddol a argymhellwyd gan y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a sefydlwyd gan awdurdod lleol ar gyfer ei ardal ac a fabwysiadwyd ganddo. Pennir y maes llafur cytunedig yn unol ag adran 375 ac Atodlen 31 i Ddeddf Addysg 1996.

- Yn y math hwn o ysgol, y sefyllfa arferol yw bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig yn cael ei darparu i'r disgyblion;
- Ond, os bydd rhiant disgybl yn gwneud cais amdani, mae'n rhaid i ysgol ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol i'r disgybl yn hytrach na'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd yn unol â'r maes llafur cytunedig. Nid yw hyn yn hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn hytrach, mae'n hawl i wneud cais am fath gwahanol o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

*Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â chymeriad crefyddol:*

- Nid oes hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg;
  - Mae'n rhaid i'r cwricwlwm gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n gydnaws â gweithred ymddiriedolaeth yr ysgol neu, os nad yw'r weithred ymddiriedolaeth yn gwneud darpariaeth ynghylch addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, sy'n gydnaws â'i daliadau ffydd. ("Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol")
  - Os nad yw'r ddarpariaeth addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn gydnaws â'r maes llafur cytunedig, mae'n rhaid i'r cwricwlwm *hefyd* wneud darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg sy'n gydnaws â'r maes llafur cytunedig.
  - Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth yn y cwricwlwm ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg *hefyd* gael ei chynllunio gan ystyried unrhyw arweiniad a roddir gan Weinidogion Cymru o dan y Bil;
- Yn y math hwn o ysgol, y sefyllfa arferol yw bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn cael ei darparu i ddisgyblion.
- Ond, os bydd rhiant plentyn yn gofyn amdani, mae'n rhaid i ysgol ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'r disgybl sy'n gydnaws â'r maes llafur cytunedig, yn hytrach nag addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Unwaith eto, nid yw hyn yn hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn hytrach, mae'n hawl i wneud cais am fath gwahanol o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

*Addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Blwraliaethol*

Rwy'n fodlon bod y penderfyniad i beidio â rhoi hawl i dynnu plentyn allan o wersi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn gydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys A2P1 ac Erthygl 9 ac Erthygl 14 pan fyddant yn cael eu darllen gyda'i gilydd. Mae'n bwysig nodi, ar wahân i'r Bil, os bydd gwladwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu addysg Crefydd,

Gwerthoedd a Moeseg, dylai sicrhau bod mynediad i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol, yn ôl y gyfraith. Os nad oes mynediad iddi, dylai fod hawl i dynnu plentyn allan o'r gwersi. Mewn ymateb i'r cwestiwn canlynol, rwyf wedi nodi'r darpariaethau yn y Bil sy'n sicrhau bod modd darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg<sup>2</sup> blwraliaethol.

Mae'r Bil yn caniatáu i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol barhau i gael ei darparu gan ysgolion ffydd ond, yn achos ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyr, gall rhiant plentyn optio allan o hynny o blaid addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol. Wrth blwraliaethol, rwy'n golygu ei bod yn addysgu nifer o wahanol safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn cydnabod rôl ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg y wladwriaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y wladwriaeth wedi croesawu sawl ffydd wahanol i'r ddarpariaeth addysg yn hanesyddol. Wrth ddrafftio'r Bil, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio parchu hyn. Mae ganddynt rôl werthfawr i'w chwarae wrth ddarparu addysg yng Nghymru.

O ran ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr sydd â chymeriad crefyddol, er bod yr hawl i dynnu plentyn allan o'r gwersi hyn wedi cael ei dileu, nid yw hynny'n golygu y bydd yn rhaid i ddisgyblion yn yr ysgolion hynny, o reidrwydd, gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Yn hytrach, gall eu rhieni ofyn eu bod yn cael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd yn unol â'r maes llafur cytunedig. Os gwneir cais o'r fath, bydd yn rhaid i ysgol ddarparu'r math hwn o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Felly, er bod yr hawl i dynnu plentyn allan o'r gwersi hyn wedi'i dileu, bydd angen i'r hyn a ddarperir fod yn blwraliaethol os bydd y rhiant yn gwneud cais am hynny. Mae'r dull gweithredu hwn yn gosod gofyniad newydd ar ysgol o'r math hwn (i ddarparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn unol â'r maes llafur cytunedig os gwneir cais gan riant) ac mae hyn yn gymesur yn ein barn ni.

Mae'n bwysig nodi nad wyf yn tybio na fydd unrhyw addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn blwraliaethol. Wrth siarad â'm swyddogion, mae Gwasanaethau Addysg yr Eglwys Gatholig wedi nodi'n glir iawn eu bod yn ystyried bod yr addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir mewn ysgolion Catholig yn blwraliaethol. Yn syml, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn cael ei darparu yn unol â'r gweithred ymddiriedolaeth, ac er nad yw'n ymarferol i Lywodraeth Cymru ystyried pob gweithred ymddiriedolaeth, mae'r dull gweithredu a nodir yn y Bil yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn, yn ein barn ni.

---

<sup>2</sup> Am enghreifftiau o'r gyfraith achos perthnasol gweler (Folgerø v Norwy (Rhif cais 15472/02) [2007] ECHR 15472/02; Lautsi v Yr Eidal (2008) 46 EHRR 47, paragraff 54); (Lautsi v Yr Eidal (2012) 54 EHRR 3, paragraff 59) ac R (ar gais Fox) ac Eraill v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg [2015] EWHC 3404 (Gwein).

### *Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb Blwraliaethol*

Rwyf hefyd yn fodlon bod dileu'r hawl i dynnu plentyn allan o wersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn gydnaws â'r hawliau a ddiogelir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan gynnwys A2P1 ac Erthygl 9. Mae'n bwysig nodi, ar wahân i'r Bil, os bydd gwladwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'n rhaid iddi sicrhau bod mynediad i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb blwraliaethol, yn ôl y gyfraith. Fel arall, dylid bod hawl i dynnu plentyn o'r gwersi hynny.

Caiff y darpariaethau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb eu cynllunio er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei ddarparu'n blwraliaethol. Dyna'r hyn sy'n ofynnol gan y gyfraith gyfredol. Yn fy ymateb i'r cwestiwn canlynol, rwyf wedi nodi sut y bydd y darpariaethau yn y Bil yn ceisio sicrhau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb blwraliaethol.

### **C3. Pa fesurau diogelwch a geir yn y Bil (neu'n ehangach) i geisio sicrhau bod cwricwla Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb –**

- a) yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n wrthrychol, yn feirniadol ac yn blwraliaethol, a**
- b) yn cael eu cyflwyno mewn modd gwrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol,**

**gan gydymffurfio â hawliau'r Confensiwn drwy hynny?**

### **Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

Mae'r Bil yn cynnwys sawl darpariaeth sydd â'r nod o sicrhau bod cynnwys addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a'r ffordd y caiff ei haddysgu, yn blwraliaethol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

#### *Ailenwi addysg grefyddol yn Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

Mae'r newid i'r enw yn adlewyrchu ffocws eang a natur blwraliaethol addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gwnaed hyn drwy gysylltu darpariaeth y Bil â'r term "argyhoeddiadau athronyddol" yn A2P1 (gweler adran 62 o'r Bil). Hynny yw, mae'n rhaid i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn unol â'r Bil fod yn gydnaws ag A2P1 yn yr ystyr bod yn rhaid cynnwys addysgu am argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

#### *Maes llafur cytunedig*

Mae'n rhaid i'r maes llafur cytunedig gydymffurfio â gofynion penodol a nodir yn adran 375A(3) o Ddeddf Addysg 1996 (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 7 o Atodlen 1 i'r Bil). Er mwyn gwneud hynny, mae'n rhaid i'r maes llafur cytunedig adlewyrchu traddodiadau crefyddol ym Mhrydain Fawr ac ystyried dysgeidiaeth ac arferion prif grefyddau eraill ar yr un pryd. Er mwyn sicrhau plwraliaeth, mae'r Bil hefyd yn gofyn bod y maes llafur yn adlewyrchu'r ffaith bod ystod o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol yn cael eu harddel ym

Mhrydain Fawr. Mae adran 375A o Ddeddf 1996 yn nodi bod y term "argyhoeddiadau athronyddol" yn adran 375A(3)(b) yn cyfeirio at argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr A2P1 i Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Diben y darpariaethau hyn yw sicrhau bod ystod o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol yn cael eu haddysgu fel rhan o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan sicrhau yr eir i'r afael â'r pwnc mewn ffordd feirniadol a gwrthrychol.

Mae'n rhaid i gwricwlwm ysgol gynnwys darpariaeth ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynlluniwyd gan ystyried y maes llafur cytunedig, neu (yn achos ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir sydd â chymeriad crefyddol) yn unol â'r maes llafur cytunedig. Felly, bydd gofynion plwraliaethol y maes llafur cytunedig yn bwydo i mewn i'r ddarpariaeth cwricwlwm ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Caiff y maes llafur cytunedig ei fabwysiadu gan Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig. Bydd yn ofynnol i'r gynhadledd gynrychioli argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a bydd gan y sawl sy'n mynychu hawliau pleidleisio.

Bydd Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog yn parhau i roi cyngor i awdurdod lleol ynghylch darparu addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o dan y Bil – bydd yn ofynnol i'r rhain hefyd gynrychioli argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol.

Yn y ffordd hon, caiff plwraliaeth ei ymgorffori yn y maes llafur cytunedig, a'r addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir mewn ysgolion.

### **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

O ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, mae'r Bil hefyd yn gwneud sawl darpariaeth sydd â'r nod o sicrhau bod cynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, a'r ffordd y caiff ei haddysgu, yn blwraliaethol. Mae'r rhain fel a ganlyn.

#### *Newid enw:*

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer newid yr enw presennol mewn deddfwriaeth o "addysg rhyw" i "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb". Mae hyn yn dangos ehangder y pwnc a'r cysyniadau y dylid eu cynnwys.

#### *Cod Statudol ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb:*

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod sy'n nodi'r themâu a'r materion sy'n gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd hyn yn sicrhau bod ystod o syniadau ar unrhyw bwnc penodol sy'n gysylltiedig ag Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael eu cynnwys ynddi. Er enghraifft, gall y cod gynnwys adrannau ar wahanol fathau o briodas a chydberthnasau teuluol eraill.

#### *Canllawiau Statudol:*

Caiff y cod a darpariaethau'r Bil eu hategu gan ganllawiau statudol. Fel y nodir uchod, mae adran 66 o'r Bil yn rhoi'r pŵer i gyhoeddi canllawiau statudol i ystod o bersonau sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cwricwlwm yn y Bil (gan gynnwys awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir). Bydd y canllawiau hynny yn galluogi'r personau/cyrff hynny i fodloni'r gofyniad plwraliaethol wrth gynllunio Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Bydd y canllawiau hynny yn destun ymgynghoriad. Rhagwelir y byddant yn darparu canllawiau ymarferol i'r cyrff uchod ar sut i gyflawni eu rhwymedigaethau yn hyn o beth, er enghraifft, canllawiau ar faterion posibl y dylid eu cynnwys neu eu hepgor a chanllawiau ar yr hyn a allai fod yn arfer da wrth addysgu'r materion hynny yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, y nod fyddai sicrhau ei bod hi'n glir y dylai ysgolion ddarparu ystod o syniadau ar unrhyw bwnc penodol ac y dylai'r wyboddaeth gael ei chyfleu yn anathrawiaethol.

*Yn ddatblygiadol briodol:*

Mae'r Bil hefyd yn cynnwys darpariaeth benodol yn adrannau 24(2) a 52(4) y dylai'r Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a ddarperir fod yn ddatblygiadol briodol.

Diben y darpariaethau hyn yw sicrhau bod y modd y caiff Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ei haddysgu a'i dysgu yn briodol i'r plentyn neu'r person ifanc ac yr eir i'r afael â'r materion a godir mewn ffordd feiriadol a gwrthrychol. Mae hon yn nodwedd bwysig er mwyn sicrhau bod rhieni a dysgwyr yn gwybod yr hyn y gallant ei ddisgwyl o'u hysgol pan fydd yn mynd ati i gyflwyno ei chwricwlwm Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**C4. Mae'r Bil yn trin ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn wahanol i'r rhai nad oes ganddynt gymeriad crefyddol, wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm a'i weithredu, yn y modd y mae'n cwmpasu'r elfen orfodol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.**

**a) Beth yw'r cyfiawnhad dros hyn?**

**b) A ydych yn fodlon nad yw hyn yn codi unrhyw faterion hawliau dynol?**

Mae cyfraith achosion a Hawliau'r Confensiwn yn ei gwneud yn ofynnol i addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol fod ar gael i bob dysgwr. Fel arall, mae'n rhaid bod hawl i dynnu plentyn allan o'r gwersi hynny.

Fel y nodir uchod, bydd yn ofynnol i ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyr barhau i addysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Mae'r Bil hefyd yn sicrhau y bydd pob disgybl yn gallu astudio maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg os mai dyna yw dymuniad y rhiant mewn ysgolion o'r fath. Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn cydnabod rôl ysgolion sydd â chymeriad crefyddol i ddarparu addysg y wladwriaeth. Mae'r ysgolion hyn yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r system addysg a bydd llawer o rieni a dysgwyr yn awyddus i ddewis y math hwn o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Mae'r Bil yn parchu hynny ac yn cadw'r rhwymedigaeth gyfreithiol sydd ar ysgolion o'r fath i addysgu yn unol â'u gweithredoedd ymddiriedolaeth neu eu henwad. Ni fwriedir bychanu pwysigrwydd crefydd mewn unrhyw ffordd. Yn hytrach, y nod yw pwysleisio agweddau ehangach.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob disgybl mewn ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir, gall rhieni dysgwyr ofyn am faes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Yn yr un modd, rydym yn cydnabod y gall rhieni sy'n anfon eu plant i ysgol sefydledig neu ysgol ffydd wirfoddol a reolir ddymuno i'w plentyn gael addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Yn y modd hwnnw, mae maes llafur cytunedig Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a fydd yn blwraliaethol ei natur ar gael i bob dysgwr. Rydym o'r farn bod hynny'n gydnaws â Hawliau'r Confensiwn. Canlyniad yr uchod yw y bydd addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg blwraliaethol ar gael i bob plentyn, a fydd yn cynnwys ystod o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Dyna'r hyn sy'n ofynnol o dan y gyfraith ar hyn o bryd. Yn yr ystyr hynny, mae cydraddoldeb.

Mae'r Wladwriaeth yn niwtral o ran hyn yn gyffredinol. Dyna'r rheswm pam mae pwyslais ar blwraliaeth. Nid oes unrhyw hawl i gael addysg a ddarperir gan y Wladwriaeth yn ôl eich credoau crefyddol eich hun. Felly, er bod y Wladwriaeth yn cydnabod bod lle i ysgolion crefyddol, mae'n rhwymedig i ddarparu darpariaeth blwraliaethol. Felly, lle mae plentyn yn mynychu ysgol ffydd ond nad yw'n rhannu ffydd yr ysgol honno, mae hawl i geisio darpariaeth blwraliaethol amgen. Fodd bynnag, lle mae plentyn â ffydd benodol yn mynychu ysgol nad yw'n ysgol ffydd, nid oes hawl i ofyn i'r Wladwriaeth ddarparu addysg yn unol â'r ffydd honno. Felly, i'r graddau y ceir triniaeth wahaniaethol, gellir ei chyfiawnhau ar y sail bod y Wladwriaeth yn sicrhau addysg blwraliaethol ac yn parchu gallu pobl i sefydlu ysgolion ffydd neu addysgu eu plant y tu allan i'r ysgol yn unol â'u ffydd eu hunain ar yr un pryd.

Ar hyn o bryd, mae hawl amodol eisoes i rieni plant mewn ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir optio allan o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol a dewis addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a ddarperir yn unol â'r maes llafur cytunedig yn lle hynny. Felly, nid yw'r hawl absoliwt newydd i optio allan o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol yn gwbl newydd yn yr ystyr hynny, ond mae'n ddatblygiad o'r hawl amodol bresennol honno sydd gan rieni. Mae'n rhywbeth y byddai'n rhaid i ysgolion fod wedi mynd i'r afael ag ef o bryd i'w gilydd. Serch hynny, rydym yn derbyn y gofyniad newydd hwn. Efallai y bydd hynny'n dasg anodd i rai ysgolion ond credwn fod y Bil yn gwneud y dasg yn haws drwy ofyn iddynt fabwysiadu'r maes llafur cytunedig ar gyfer addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, gan olygu bod y dasg gynllunio honno'n haws.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ysgolion sydd â chymeriad crefyddol gynllunio dau faes llafur, os bydd rhiant yn gofyn iddynt wneud hynny. Gan nad oes unrhyw hawl i dynnu plentyn allan o wersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (nac yn wir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb), mae angen i'r Bil sicrhau bod addysg Crefydd, Gwerthoedd a

Moeseg blwraliaethol ar gael i'r plant hynny sy'n mynychu ysgol ffydd os bydd rhiant yn dymuno hynny.

Ystyriaf fod hyn yn gydnaws â Hawliau'r Confensiwn. O ran sut y gallant ddarparu hynny'n ymarferol, rydym yn rhagweld mai niferoedd bach iawn o ddisgyblion fydd yn peidio â dilyn y maes llafur Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Byddai angen i'r ysgol ystyried y ffordd orau o ddarparu hynny. Er enghraifft, gellid ei ddarparu mewn dosbarthiadau ychwanegol atodol neu ar wahân. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig a'r Eglwys yng Nghymru i ystyried sut i asesu effaith gweithredu'r gofyniad hwn a mynd i'r afael â hi.

Os nad oedd hynny'n briodol ym marn yr ysgol, yna gallai'r opsiynau gynnwys gwneud trefniadau i ddarparu dysgu ychwanegol mewn lleoliad arall neu wneud trefniadau i ddarparwyr allanol ddarparu dysgu ar safle'r ysgol. Byddai angen i'r ysgol nodi hynny'n glir, gan gynnwys yr hyn a fyddai'n cael ei ddarparu.

Rwyf wedi gwranddo'n ofalus ar y pryderon a godwyd gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol eraill ond ni ragwelaf y bydd nifer mawr o ddisgyblion yn dewis peidio â dilyn addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Yn fy marn ni, mae'n debygol, os yw rhieni wedi arfer yr hawl i dynnu eu plant allan o wersi addysg grefyddol o dan y ddeddfwriaeth gyfredol, y byddant hefyd yn eu tynnu allan o wersi addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Enwadol. Rydym ar ddeall bod nifer y rhieni sy'n arfer yr hawl i dynnu eu plant allan o wersi ar hyn o bryd mewn ysgolion sydd â chymeriad crefyddol yn fach iawn.

#### Darpariaethau'r Bil

**C5. Mae adrannau 6 i 8 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi codau sy'n ymwneud â Beth sy'n Bwysig, Cynnydd ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, y mae'n rhaid i unrhyw gwricwlwm a weithredir ar gyfer dysgwyr gadw atynt. Bydd llawer o fanylion y cwricwlwm wedi'u cynnwys yn y codau hyn. A allwch egluro pam mae'r codau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol?**

Nodir yr egwyddorion allweddol ar wyneb y Bil. Bydd y Codau yn cynnwys rhai manylion a fydd yn helpu penaethiaid, cyrff llywodraethu ac athrawon i gynllunio'r cwricwlwm a'i roi ar waith. Er enghraifft, bydd y Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn nodi'r themâu a'r materion y dylid eu cynnwys wrth addysgu a dysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Bydd angen i bwnc y Cod gael ei ddiweddarau o bryd i'w gilydd er mwyn adlewyrchu materion sy'n dod i'r amlwg. Bydd y Cod ac unrhyw newidiadau iddo yn destun ymgynghoriad. Ystyriaf fod y weithdrefn negyddol yn rhoi cyfle priodol i'r Senedd graffu ar y Cod.

Er hynny, ystyriais a oedd agweddau ar y Cod a oedd yn dynodi mai'r weithdrefn gadarnhaol yw'r weithdrefn briodol e.e. a yw'n caniatáu i ni osod



neu gynyddu trethiant; darpariaeth sy'n ymwneud â gwariant sylweddol gan y Llywodraeth; pwerau i greu darpariaethau troseddol anarferol neu gosbau sifil anarferol; neu bwerau i roi pwerau mynediad, arholi neu arolygu anarferol, neu ddarparu ar gyfer casglu gwybodaeth o dan bwerau gorfodi. Nid yw'r un o'r materion hyn yn gymwys yn yr achos hwn. Serch hynny, nid dyna'r darlun llawn ac rwyf wedi ystyried ymhellach a yw'r Cod yn codi materion o bwysigrwydd arbennig a fyddai, fel arall, yn dynodi mai'r weithdrefn gadarnhaol sy'n briodol.

Er y bydd y Cod yn cynnwys themâu a materion i'w cynnwys mewn Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, rhagwelir y byddai hynny ar lefel uchel. Ni chynlluniwyd y darpariaethau Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y Bil er mwyn rhagnodi ei chynnwys. Serch hynny, ymdrinnir ag agwedd allweddol ar y polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ar wyneb y Bil, sef y gofyniad bod yn rhaid i'r addysg honno gael ei darparu mewn modd datblygiadol briodol (gweler adrannau 24(2) a 52(4) o'r Bil). Bydd y weithdrefn negyddol yn caniatáu i mi ymateb yn gyflym a diwygio'r Cod yn gyflymach mewn ymateb i faterion newydd yn y maes hwn. Mae'r maes hwn yn un sensitif iawn a bydd materion cymhleth newydd yn dod i'r amlwg o bryd i'w gilydd.

Darperir cymorth pellach i ysgolion drwy ganllawiau statudol a fydd yn rhoi gwybodaeth fanylach am yr argymhellion ar gyfer addysgu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac, yn benodol, y themâu a'r materion a nodir yn y Cod. Bydd y weithdrefn negyddol yn rhoi cyfle i'r Senedd graffu'n briodol ar y Cod. Ni fydd y Cod yn egluro sut y dylid mynd ati i addysgu'r materion hynny.

**C6. Mae adran 72(6) o'r Bil yn caniatáu i ymgynghoriadau ar y Bil, sy'n ofynnol o dan adran 72(2)(a), gael eu cynnal cyn y daw adran 72 i rym. A ydych yn bwriadu defnyddio'r ddarpariaeth hon?**

Efallai y bydd angen defnyddio'r ddarpariaeth hon gan fod llawer o'r cynnwys ar gyfer y cod Beth sy'n Bwysig a'r cod Cynnydd wedi'i gyd-lunio a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2020 fel rhan o ddogfennaeth canllaw Cwricwlwm i Gymru. Ni ragwelwn y bydd unrhyw newidiadau i'r cod Beth sy'n Bwysig. Ni fyddem am ddiystyru newidiadau i'r cod Cynnydd pe bai'n glir y byddai ymarferwyr yn cael budd o eglurhad pellach. Rydym yn asesu'r angen i wneud newidiadau a byddai angen ymgynghori ar hyn ar ôl i'r Bil gael ei ddeddfu.

Mae'r cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cael ei gyd-lunio gan y Gweithgor Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, sy'n cynnwys cynrychiolwyr rhanddeiliaid allweddol, a bwriedir ymgynghori arno yn ystod 2021. Yn yr achos hwn, mae'r defnydd o'r ddarpariaeth yn ddarostyngedig i newidiadau i ddarpariaethau'r Bil ac amseru'r ymgynghoriad.

Diben cynnwys y ddarpariaeth hon yn y Bil yw sicrhau bod modd rhannu'r codau gyda phenaethiaid a chyrrff llywodraethu mewn da bryd i'w galluogi i ddatblygu eu cwricwlwm a pharatoi i'w roi ar waith ym mis Medi 2022.

**C7. Mae adran 17(a) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y camau y mae'n rhaid i ysgol neu leoliad eu**

**cymryd cyn mabwysiadu cwricwlwm. Mae adran 17(c) yn darparu pŵer i nodi amgylchiadau ychwanegol pan fo'n rhaid diwygio cwricwlwm. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn cadarnhau nad yw Gweinidogion Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn ac yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu bod "*darpariaeth ddigonol ar wyneb y Bil mewn perthynas â'r materion hyn*". O ystyried eich bod yn credu bod darpariaeth ddigonol ar wyneb y Bil, a allwch gadarnhau pam fod angen y pwerau yn adran 17(a) ac (c)?**

Ar hyn o bryd, nid wyf yn rhagweld y bydd angen defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 17(a) ac (c). Fodd bynnag, os bydd materion yn dod i'r amlwg neu os bydd amgylchiadau yn newid, maent yn caniatáu i Lywodraeth Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol. Fel y nodwyd yn y Datganiad o Fwriad Polisi, nid oes modd rhagweld sut yn union y bydd arfer yn datblygu. Mae pwerau i wneud rheoliadau o dan yr is-adrannau hyn wedi'u cynnwys er mwyn sicrhau bod y system yn parhau i fod yn ymarferol rhag ofn y daw'n amlwg bod y gofynion ar wyneb y Bil yn annigonol. Pe bai angen gwneud rheoliadau, byddai'r rheoliadau hynny yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

**C8. Mae adran 25(1) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ar ofynion cwricwlwm ychwanegol i ddysgwyr ym mlynyddoedd ysgol 10 ac 11. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi y gellid defnyddio'r pŵer i fynnu bod ysgolion yn darparu cwrs astudio penodol pe na bai'r cwricwlwm yn ddigon eang a chytbwys.**

**a) Pe bai rhai ysgolion yn cynnig cwricwlwm cul i ddysgwyr ym mlynyddoedd 10 ac 11, gallai fod yn rhy hwyr i'r dysgwyr hynny erbyn i'r mater gael ei ddwyn i sylw'r Gweinidog a bod unrhyw reoliadau wedi'u gwneud. Am y rheswm hwnnw, pa ystyriaeth a roddwyd i roi gofynion o'r fath ar wyneb y Bil?**

Ystyriwyd cynnwys manylion ychwanegol ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, teimlaf na fyddai darpariaeth ar wyneb y Bil yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen. Rhagwelwn y bydd angen i ni weld sut y bydd arferion ysgolion yn datblygu, yng nghyd-destun cwricwlwm newydd sbon, a ph'un a fydd unrhyw ddiffygion (os o gwbl). Er enghraifft, mae Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 yn gwneud y math hwn o ddarpariaeth ar gyfer y cwricwlwm lleol yng nghyfnod allweddol 4. Mae fersiwn gyntaf y rheoliadau hynny wedi'i diwygio er mwyn rhagnodi gofynion gwahanol o ran cyrsiau astudio ar gyfer y cwricwlwm lleol.

**b) Mae rheoliadau o dan adran 5 o'r Bil sy'n ymwneud ag agweddau gorfodol ar y cwricwlwm yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. A allwch gadarnhau pam yr ystyrir bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 25(1)?**

Unwaith eto, mae'r egwyddorion allweddol wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Bydd y Rheoliadau a wneir o dan y pŵer hwn yn cynnwys rhai manylion. Fodd

bynag, rhagwelwn y bydd angen i ni weld sut y bydd arferion ysgolion yn datblygu, yng nghyd-destun cwricwlwm newydd sbon.

Ni allai'r pŵer hwn i wneud rheoliadau gael ei ddefnyddio i wneud Rheoliadau a fyddai'n diwygio darpariaethau eraill mewn deddfwriaeth sylffaenol.

**C9. Mae adran 26 o'r Bil yn galluogi penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a meithrinfeydd a gynhelir i ddatgymhwyso Saesneg fel elfen orfodol o'r cwricwlwm hyd at 7 oed, os gwneir hynny er mwyn datblygu neu gynnal lefelau rhuglder disgyblion yn y Gymraeg. A allwch gadarnhau a oes angen i bennaethiaid a chyrff llywodraethu wneud unrhyw benderfyniad ar y cyd a beth fydd yn digwydd os bydd anghytundeb rhyngddynt?**

Byddai angen i'r pennaeth a'r corff llywodraethu wneud penderfyniad ar y cyd yn achos ysgolion a gynhelir a meithrinfeydd a gynhelir. Gallant hefyd ddiddymu'r penderfyniad.

Os bydd anghydfod, bydd corff llywodraethu'r ysgol yn chwarae rôl bwysig<sup>3</sup>. Mae'r rheoliadau yn darparu y bydd y pennaeth yn aelod o'r corff llywodraethu oni fydd yn ymddiswyddo. Felly, rhagwelaf y caiff unrhyw anghydfod ei ddatrys ar lefel leol. Ystyriaf fod hyn yn briodol o ystyried un o egwyddorion allweddol y Bil, sef bod ysgolion yn datblygu eu cwricwlwm eu hunain. Ar hyn o bryd, dylai rhai penderfyniadau penodol gael eu gwneud ar y cyd: os bydd anghytundeb, bydd angen cyfaddawdu er mwyn sicrhau bod modd datrys y sefyllfa. Ystyriwn yr ymdrinnir â hyn yn yr un ffordd.

Os bydd y berthynas rhwng y pennaeth a'r corff llywodraethu yn chwalu i'r fath raddau fel na allant gyfaddawdu nac arfer y swyddogaeth hon yn rhesymol, gallai hyn arwain at arfer pwerau cyfarwyddo awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Yr awdurdod lleol ddylai gymryd camau o dan y Ddeddf honno i ddatrys y broblem yn y lle cyntaf, ond pe na bai hynny'n digwydd neu pe na bai'n sicrhau'r canlyniad angenrheidiol, gallai Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau cyfarwyddo hwythau o dan yr un Ddeddf. Credaf nad yw hyn yn debygol o ddigwydd ond, er enghraifft, os na allant gydweithio neu gydweithredu, mae cyfarwyddyd yn opsiwn posibl y gellir ei ddefnyddio i ddatrys y broblem honno.

**C10. Mae adran 34 o'r Bil yn nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i bennaeth ei rhoi ac i bwy pan wneir penderfyniad o dan adran 33 i beidio â gweithredu dewis disgybl o ran cwrs astudio. Mae is-adran 34(5) o'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach drwy reoliadau. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn darparu y**

---

<sup>3</sup> Mae'n werth nodi y caiff cyfansoddiad a gweithdrefnau corff llywodraethu eu rheoleiddio'n bennaf gan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

**caiff rheoliadau ymdrin â materion fel terfynau amser neu weithdrefnau, ond na fwriedir gwneud rheoliadau i ddechrau gan fod digon o wybodaeth ar wyneb y Bil. Nid oes unrhyw wybodaeth ar wyneb y Bil ynghylch terfynau amser neu weithdrefnau. O ystyried y bydd hyn yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau eu harholiadau TGAU, sy'n golygu y bydd angen i unrhyw broses fod yn amserol, a allwch gadarnhau pa ystyriaeth a roddwyd i roi rhagor o fanylion ar wyneb y Bil neu ei gwneud yn ofynnol gwneud rheoliadau yn hytrach na dim ond caniatáu hynny?**

Ystyriwyd cynnwys manylion ychwanegol ar wyneb y Bil. Fodd bynnag, teimlaf na fyddai darpariaeth ar wyneb y Bil yn cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen. Mae'r manylion y rhagwelaf y bydd eu hangen, fel y nodir yn y Datganiad o Fwriad Polisi, yn rhai technegol sy'n debygol o ddatblygu dros gyfnod o amser. Mae hynny'n gyson â deddfwriaeth arall ym maes addysg. Er enghraifft, mewn perthynas â gwahardd disgyblion, nodir manylion y gweithdrefnau apelio a'r terfynau amser mewn is-ddeddfwriaeth (gweler Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 (OS 2003/3227)).

Er fy mod i'n gwerthfawrogi'r pwynt a wnaethpwyd yn eich cwestiwn, nid yw'n bosibl rhagweld sut yn union y bydd arfer yn datblygu ac efallai na fydd angen i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud o hyd. Felly, nid wyf yn teimlo bod angen ei gwneud yn ofynnol i'r rheoliadau hyn gael eu gwneud. Os bydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg, yna rheoliadau fydd y cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Byddant yn caniatáu i'r Llywodraeth ddiwygio manylion unrhyw derfynau amser o bryd i'w gilydd ac mewn ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau.

**C11. Mae adran 40 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i ysgol sy'n datgymhwyso neu'n addasu unrhyw un o'r gofynion gweithredu a nodir yn adrannau 29 i 32 at ddibenion arbrofol neu ddatblygiadol. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn darparu mai dim ond o dan amgylchiadau prin y caiff ei ddefnyddio.**

**a) A allwch ddarparu rhai amgylchiadau enghreifftiol?**

Gallai hyn gynnwys prosiect arloesol a gynlluniwyd i brofi syniad polisi newydd a chodi safonau addysgol. Rhagwelaf y byddai hyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arbrofion llai o faint sy'n cynnwys un ysgol neu nifer bach o ysgolion efallai.

**b) A allwch gadarnhau sut y mae'r pŵer hwn yn wahanol i'r pŵer yn adran 50(1) o'r Bil a fyddai hefyd yn caniatáu ar gyfer datgymhwyso neu addasu'r cwricwlwm?**

Bwriedir i adran 50 roi pŵer sy'n cyfateb yn fras i'r pŵer yn adran 112 o Ddeddf Addysg 2002. Defnyddiwyd y pŵer yn adran 112 o Ddeddf 2002 pan gafodd y Cyfnod Sylfaen ei dreialu yn 2008 (gweler Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru yng Nghyfnod Allweddol 1)

(Cymru) 2008 (OS 2008/1736)). Enghraifft arall o'r modd y defnyddiwyd pŵer adran 112 yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru) (Datgymhwysu Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4) 2006 (OS 2006/1335). Yn yr achos hwnnw, roedd y Rheoliadau yn datgymhwysu gofynion Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru ar gyfer gwyddoniaeth mewn perthynas â disgybl lle mae pennaeth ysgol yn fodlon bod y disgybl yn dilyn cwrs sy'n arwain un o gymwysterau allanol cymeradwy y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol ar lefel mynediad, lefel 1 neu lefel 2. Rhagwelaf y caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio ar gyfer materion a gymhwysir yn fwy cyffredinol. O'r herwydd, rheoliadau y mae'n rhaid eu gosod gerbron y Senedd yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â hwy. Rhagwelaf y caiff adran 40 ei defnyddio i fynd i'r afael â materion na chânt eu cymhwysu'n gyffredinol h.y. rhai nad ydynt yn berthnasol i bob ysgol ac sydd, er enghraifft, yn effeithio ar un ysgol neu nifer bach o ysgolion yn unig, er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n benodol iawn i'r ysgolion hynny.

Rhagwelaf y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mentrau tebyg yn y dyfodol.

**C12. Mae adran 50(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau sy'n datgymhwysu neu'n addasu gofynion gweithredu'r cwricwlwm mewn achosion neu amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau. Mae adran 50(2) yn caniatáu i'r Rheoliadau roi disgrisiwn i berson arall ddatgymhwysu neu addasu gofyniad cwricwlwm. Pa fesurau diogelwch yr ydych chi'n rhagweld y byddent ar waith i sicrhau bod y disgrisiwn hwnnw'n cael ei arfer yn iawn?**

Rwy'n cydnabod bod datgymhwysu neu addasu'r cwricwlwm ar gyfer unrhyw ddisgybl yn gam dirifol. Fodd bynnag, byddai unrhyw gynnis o'r fath yn destun ymgynghoriad o flaen llaw a phroses graffu gan y Senedd drwy osod Rheoliadau a wnaed o dan adran 50 o'r Bil.

Pe teimlid y byddai angen rhoi disgrisiwn i berson arall yn y rheoliadau, byddai'n bosibl gosod rhai cyfyngiadau ar y broses o arfer yr ataliad hwnnw, er enghraifft, terfynau ar pryd a sut y gellid arfer y disgrisiwn neu gyfyngiadau ar ba mor hir y gellid arfer y disgrisiwn hwnnw.

**C13. Mae adran 47(6) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn i'w dilyn a'r terfynau amser priodol ar gyfer apeliadau ynghylch eithriadau dros dro i ddisgyblion unigol. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn nodi nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwriad ar hyn o bryd i wneud rheoliadau sy'n ymdrin â gweithdrefn gan fod prosesau eisoes ar waith gan ysgolion. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi hefyd yn nodi bod ystyriaeth, serch hynny, yn cael ei rhoi i ddefnyddio'r pwerau i bennu terfynau amser. O ystyried yr effaith y gallai penderfyniadau o'r fath ei chael ar addysg disgyblion unigol, a allech gadarnhau a roddwyd unrhyw ystyriaeth i bennu terfynau amser ar wyneb y Bil?**

Mae adran 47(8) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas ag apeliadau o dan yr adran hon. Er bod y pŵer yn caniatáu i ni wneud darpariaeth mewn perthynas â therfynau amser ar gyfer apeliadau, ystyriwn ei bod yn fwy priodol i ni roi'r hyblygrwydd i ysgolion bennu eu gweithdrefnau eu hunain ar y cam hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac, os bydd tystiolaeth newydd yn dangos bod angen darpariaeth o'r fath yn y rheoliadau, yna gallwn fynd ati i reoleiddio yn unol â hynny.

Ystyriwn hefyd, yn yr un modd â'r rheoliad sy'n gwneud pwerau yn adran 34(5) (gweler uchod), na fyddai nodi manylion o'r fath ar wyneb y Bil yn rhoi digon o hyblygrwydd i ysgolion. Os bydd angen deddfu yn y maes hwn, rhagwelaf y bydd rheoliadau yn rhoi'r hyblygrwydd priodol sydd ei angen a gallant gael eu diwygio o bryd i'w gilydd yn haws nag sy'n ymarferol gyda Bil. Mae'r Bil yn nodi trefniadau cwbl newydd ar gyfer cwricwla ysgolion ac mae'n bwysig asesu sut y bydd anghenion ysgolion ac, yn wir, anghenion disgyblion yn datblygu.

**C14. Mae adran 67(1) o'r Bil yn darparu pŵer eang i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch addysgu a dysgu i ddysgwyr sy'n derbyn addysg mewn mwy nag un lleoliad. Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi yn rhoi un enghraifft o sut y gellir defnyddio'r pŵer, sef diffinio am y tro cyntaf mewn deddfwriaeth addysg nifer yr oriau yr ystyrir eu bod yn gyfystyr ag addysg amser llawn. Pam mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer pŵer mor eang a fyddai'n galluogi gwneud newidiadau sylfaenol (e.e. i ystyr addysg amser llawn)?**

Mae angen adran 67 i fynd i'r afael â sefyllfa plant sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad. Dyweder bod plentyn yn cael addysg mewn ysgol ac mewn UCD, ni fyddai'n bosibl cymhwyso gofynion arferol y cwricwlwm at yr UCD a'r ysgol, oherwydd ni all y naill na'r llall roi cwricwlwm llawn ar waith ar gyfer y plentyn. Gellir defnyddio'r pŵer yn adran 67(1) i wneud darpariaeth ynghylch sut y dylai'r cwricwlwm weithio ar gyfer plentyn yn y sefyllfa hon, a phwy ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r dyletswyddau gwahanol.

At hynny, bydd rhai plant yn cael addysg mewn un lleoliad yn unig, ond am gyn lleied o oriau fel ei bod yn amhriodol cymhwyso gofynion arferol y cwricwlwm at y lleoliad hwn. (Er enghraifft, disgybl sydd efallai wedi bod i ffwrdd o'r ysgol oherwydd straen ac sy'n dychwelyd i'r ysgol yn raddol, dyweder am 3 awr yr wythnos i ddechrau.) Gellid defnyddio'r pŵer yn adran 67(1) i wneud darpariaeth ar gyfer y plant hyn. Ond, drwy wneud hynny, mae'n debygol y bydd angen cyfeirio at nifer yr oriau o addysgu a dysgu y mae plentyn yn eu cael mewn lleoliad – er enghraifft, drwy wneud darpariaeth ynghylch sut y dylid cymhwyso'r cwricwlwm at blant sydd ond yn cael rhwng 3 a 5 awr yr wythnos o addysgu a dysgu mewn lleoliad.

Mae'r ffaith nad oes diffiniad o addysg amser llawn yn rhan o'r cefndir i'r ddarpariaeth hon. Pe bai diffiniad statudol o addysg amser llawn, gallai adran 67 nodi'n syml ei bod yn gymwys i blant nad ydynt yn cael addysg amser

llawn. Ond, yn absenoldeb hyn, bydd angen i'r plant hyn gael eu diffinio yn y rheoliadau, a gellir gwneud hyn drwy gyfeirio at nifer yr oriau o addysg a geir. Nid er mwyn diffinio addysg amser llawn, at ddibenion deddfwriaeth addysg yn gyffredinol, y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd hon ond er mwyn gwneud darpariaeth hyblyg ynghylch sut y dylid cymhwyso'r cwricwlwm, yng nghyd-destun yr oriau gwahanol a'r oriau cyfyngedig o addysg y gall rhai plant fod yn eu cael mewn lleoliad penodol. Ystyriwn mai manylion technegol yw'r rhain yn bennaf.

**C15. Mae adran 70(1) o'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth pan fo'n angenrheidiol neu'n briodol i alluogi'r fframwaith cwricwlwm newydd i weithredu. Pam mae'r ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol pan fo'n cynnwys pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol?**

O ran adran 70, nodir yr amgylchiadau pan y gellid ei defnyddio yn adran 70(1) ac maent fel a ganlyn:

- Er mwyn gwneud darpariaeth atodol, darpariaeth gysylltiedig neu ddarpariaeth ganlyniadol.
- Er mwyn gwneud darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed. Byddai hyn ond yn cynnwys darpariaeth y byddai ei hangen er mwyn symud o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu presennol i'r rhai newydd yn ddiraferth. Er enghraifft, efallai y bydd angen cadw rhai agweddau ar y cwricwlwm ar gyfer carfan o ddisgyblion er mwyn osgoi unrhyw anhegwch iddynt.

Gallai darpariaeth o'r fath gynnwys darpariaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Er enghraifft, bydd y Bil yn newid "addysg grefyddol" i "Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg". Bydd angen i ni newid y cyfeiriadau hynny ym mhob rhan o'r llyfr statud: diwygiadau canlyniadol yw'r rhain. Mae'n bosibl na fyddwn yn nodi ac yn diwygio pob cyfeiriad o'r fath yn y Bil. Os felly, byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio i wneud y newidiadau hynny a sicrhau bod y llyfr statud yn gyson yn hyn o beth.

Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i wneud darpariaeth – drwy bŵer Harri'r VIII neu fel arall – sy'n cynnwys darpariaeth sylweddol newydd. Yn hytrach, bydd yn caniatáu i ddeddfwriaeth sylfaenol gael ei diwygio, er enghraifft, er mwyn sicrhau bod pob cyfeiriad at addysg grefyddol yn cael ei newid er mwyn cyfeirio at y pwnc newydd, Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, lle y bo'n briodol.

Cwmpas y pŵer yw sicrhau bod bwriadau polisi'r Bil hwn, fel y'u cymeradwywyd gan y Senedd, yn cael eu gweithredu yn y ffordd orau bosibl, sicrhau bod y Bil yn cael ei roi ar waith yn effeithiol a sicrhau bod y llyfr statud ehangach yn cael ei gadw'n gyfredol ac yn hygyrch.

**C16. Mae adran 79(2) o'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion sy'n darparu ar gyfer cychwyn darpariaethau penodol yn y Bil. Mae argymhellion blaenorol y Pwyllgor ar y mater hwn ar Filiau eraill wedi awgrymu y dylai'r gorchmynion cychwyn sy'n cynnwys 'darpariaeth ddarfodol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed' fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Pa asesiad a wnaed cyn penderfynu na fyddai gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw rai o weithdrefnau'r Senedd?**

Nodaf safbwyntiau'r Pwyllgor ar y mater hwn. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw Orchymyn cychwyn a wneir o dan y Bil hwn yn cynnwys polisi newydd. Unig fwrriad y gorchymyn yw rhoi darpariaethau'r Bil ar waith – darpariaethau a fyddai wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd ar y pwynt hwnnw.

#### Asesiadau Effaith

**17. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd (paragraff 9.20 o'r Memorandwm Esboniadol) yn nodi y bydd y cwricwlwm newydd yn cael effaith gadarnhaol o ran nifer o nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys anabledd, hil, cyfeiriadedd rhywiol ac aelwydydd incwm isel. Mae paragraff 9.41 o'r Memorandwm hefyd yn nodi na ragwelwyd bod angen Asesiad Effaith Prawfesur Gwledig llawn ar hyn o bryd. Mae paragraff 9.49 o'r Memorandwm, mewn perthynas â'r Asesiad a gynhaliwyd o'r Effaith ar lechyd, yn dweud y bydd dysgwyr yn cael amrywiaeth o ddysgu sy'n eu cefnogi i ddatblygu a chynnal ymddygiad cadarnhaol sy'n cadarnhau iechyd. Fodd bynnag, mae paragraff 9.50 yn ychwanegu y gallai hyblygrwydd y cwricwlwm newydd arwain at amrywiad yn y ddarpariaeth ar draws gwahanol gymunedau a allai beri risg i rai dysgwyr oherwydd eu cefndir neu eu daearyddiaeth. A allwch egluro sut mae'r pryderon a fynegir ym mharagraff 9.50 o'r Memorandwm yn cydfynd â'r datganiadau ym mharagraffau 9.20 a 9.41?**

Fel y nodir yn adran Prawfesur Gwledig yr Asesiad Effaith Integredig llawn, "mae trefniadau'r cwricwlwm wedi'u cynllunio i fod yn berthnasol i bob dysgwr ym mhob ysgol neu leoliad yng Nghymru. Roedd yr ymarferwyr a gyfrannodd at ddatblygu'r trefniadau newydd yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion o wahanol faint mewn lleoliadau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, rhanddeiliaid ac arbenigwyr."

Mae'r canllawiau wedi'u datblygu i sicrhau bod ysgolion a dysgwyr yn cael budd o'r trefniadau newydd, ni waeth beth fo'u cefndiroedd. Caiff ysgolion mewn ardaloedd gwledig eu helpu i ddatblygu cwricwla sy'n adlewyrchu eu hanghenion a'u materion lleol; a'r cyfleoedd, y gwasanaethau a'r profiadau sydd ar gael yn rhwydd iddynt yn yr un ffordd ag ysgolion a dysgwyr mewn ardaloedd trefol neu ardaloedd o gwmpas trefi.



Rydym yn cydnabod bod risg y gallai hyblygrwydd o dan y trefniadau newydd arwain at ormod o amrywiaeth o ran darpariaeth. Codwyd y pryderon hyn mewn ymateb i'r cam adborth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm y llynedd, ac maent wedi arwain at y mesurau a gynigir gennym yn y Bil. Mae'r ddeddfwriaeth a gynigir gennym yn rhoi pwyslais ar elfennau o'r canllawiau er mwyn darparu fframwaith cyffredin sy'n cynnwys gofynion mewn perthynas â'r pedwar diben, meysydd dysgu a phrofiad, y datganiadau beth sy'n bwysig a chynnydd wrth ddysgu. Yn ein barn ni, bydd yr hyblygrwydd sy'n cael ei gynnis i ysgolion o fewn y fframwaith cenedlaethol cyffredin cadarn hwn, gyda chymorth ehangach ar gyfer ymarferwyr ledled Cymru, yn arwain at broses ddysgu sy'n fwy perthnasol i'r cymunedau a'r ardaloedd lle mae plant yn byw. Byddant hefyd yn cael addysg eang a chytbwys i'w cefnogi ni waeth beth y byddant yn ei wneud yn y dyfodol.

**18. Mae paragraff 9.44 o'r Memorandwm yn nodi bod effeithiau posibl y cynnig am gwricwlwm newydd ar y system gyfiawnder wedi eu hystyried.**


**a) A gynhaliwyd Asesiad llawn o'r Effaith ar Gyfiawnder cyn cyflwyno'r Bil?**

Do. Fe'i cyflwynwyd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gytunodd yn ddiweddarach (Ionawr 2019) na fyddai angen proses llawn ar gyfer Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder.

**b) Mae paragraff 9.46 o'r Memorandwm yn nodi bod ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder ar gael a darperir linc i'r ffurflen pan gyflwynir y Bil. Nid yw'n ymddangos bod y ffurflen honno wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru, ac ni chredwn fod Pwyllgorau'r Senedd wedi ei chael. Pryd fydd y ffurflen ar gael i Aelodau'r Senedd?**

Mae'r ddogfen bellach ar gael yn yr adran asesiad effaith o dudalennau gwe Llywodraeth Cymru ar y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) yn y ddolen ganlynol: <https://llyw.cymru/bil-cwricwlwm-ac-asesu-cymru-asesiadau-effaith>

Yn gywir,



Kirsty Williams AS  
Y Gweinidog Addysg



# Eitem 3

## Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir

5 Hydref 2020

### SL(5)622 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020

Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 drwy ddynodi Dinas a Sir Caerdydd a Dinas a Sir Abertawe yn ardaloedd diogelu iechyd lleol. Effaith hyn mewn perthynas â'r ardaloedd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwydydd rhag ffurfio aelwydydd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i'r ardal rhag mynd i'r ardal heb esgus rhesymol.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

**Fe'u gwnaed ar:** 25 Medi 2020

**Fe'u gosodwyd ar:** 25 Medi 2020

**Yn dod i rym ar:** 27 Medi 2020



# SL(5)624 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020

## Gweithdrefn: Cadarnhaol Dros Dro

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 45C(1), adran (3)(c), adran 45F(2) ac adran 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984").

Mae'r Rheoliadau'n diwygio'r Prif Reoliadau i ddynodi Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen fel ardaloedd amddiffyn iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol, sef:

- ni chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwydydd rhag ffurfio aelwydydd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd o'r ardal heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan i'r ardal rhag mynd i'r ardal heb esgus rhesymol; Nid yw'n esgus rhesymol mynd i ardal i weithio, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984

**Fe'u gwnaed ar:** 28 Medi 2020

**Fe'u gosodwyd ar:** 28 Medi 2020

**Yn dod i rym ar:** 28 Medi 2020



# Eitem 3.1

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1043 (Cy. 232)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14)  
(Abertawe a Chaerdydd) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae'r diwygiad yn dynodi Dinas a Sir Abertawe a Dinas a Sir Caerdydd yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau  
hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1043 (Cy. 232)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14)  
(Abertawe a Chaerdydd) 2020**

*Gwnaed* am 4.24 p.m. ar 25 Medi 2020

*Gosodwyd gerbron  
Senedd Cymru* am 6.30 p.m. ar 25 Medi 2020

*Yn dod i rym* am 6.00 p.m. ar 27 Medi 2020

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### **Enwi a dod i rym**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 27 Medi 2020.

### **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4A, ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (g) mewnosoder—

“(h) Dinas a Sir Caerdydd;

(i) Dinas a Sir Abertawe.”

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Am 4.24 p.m. ar 25 Medi 2020

---

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227), O.S. 2020/1035 (Cy. 229) ac O.S. 2020/1040 (Cy. 230).



**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020

**Mark Drakeford**  
**Y Prif Weinidog**

25 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas â Dinas a Sir Abertawe a Dinas a Sir Caerdydd yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwysu'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol unigol, a fydd yn awr at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys Dinas a Sir Abertawe a Dinas a Sir Caerdydd. Yn benodol, mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn gwahardd gadael yr ardaloedd neu aros i ffwrdd oddi wrthynt neu fynd iddynt heb esgus rhesymol; yn darparu nad oes unrhyw aelwyd o fewn yr ardaloedd yn cael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig ac yn gwahardd aelwydydd o'r fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig; ac yn ei gwneud yn ofynnol i

fangreuedd trwyddedig gau erbyn 11pm bob dydd. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardaloedd neu fynd iddynt yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 1 Hydref, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol, a gwneud hynny o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio<sup>1</sup> gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', Ar hyn o bryd, mae chwe ardal diogelu iechyd leol<sup>2</sup>, a'r Rheoliadau hyn yn ymestyn bellach y cyfyngiadau i ardal diogelu iechyd leol arall sy'n cynnwys Dinas a Sir Abertawe a Dinas a Sir Caerdydd. Effaith hyn mewn perthynas â'r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal honno rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;

<sup>1</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)

<sup>2</sup> sef Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerphilly Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd a 13 ward etholiadol Llanelli

- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan o'r ardal rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 27 Medi 2020. Rhaid adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol ar 1 Hydref neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdod lleol a chyrrff y GIG ar gyfer ardaloedd Abertawe a Chaerdydd yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechyd lleol presennol. Bu'r dystiolaeth a'r cyngor a ddarparwyd ganddynt yn allweddol wrth bennu graddau'r ardal diogelu iechyd leol newydd.

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio mewn cynhadledd i'r wasg yn gynharach heddiw fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoedduswydd eang gan y cyfryngau.

## **6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

25 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) (Abertawe a Chaerdydd) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Abertawe a Chaerdydd) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. ar ddydd Sul. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 22 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Hydref 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Y.P.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:Y.P.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Diweddariad ar y cyfyngiadau coronafeirws

**DYDDIAD** 25 Medi 2020

**GAN** Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn dilyn fy niweddariad ichi neithiwr ynglŷn â'r adolygiad o'r cyfyngiadau lleol a gyflwynwyd bythefnos yn ôl ym **mwrdeistref Caerffili**, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am ganlyniad yr adolygiad ffurfiol o'r cyfyngiadau lleol yn **Rhondda Cynon Taf** a'r sefyllfa sy'n datblygu ledled Cymru.

Yn **Rhondda Cynon Taf**, mae'r achosion wedi parhau i gynyddu. Mae hyn i'w ddisgwyl – gallai gymryd pythefnos neu fwy cyn cyrraedd yr uchafbwynt, oherwydd yr amser rhwng dal yr haint a dechrau'r symptomau. Bydd y cyfyngiadau'n parhau, felly, a byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn ofalus.

Mae'r achosion yn parhau i gynyddu hefyd ym **Mlaenau Gwent** a **Phen-y-bont ar Ogwr**, lle cyflwynwyd cyfyngiadau lleol yn gynharach yr wythnos hon.

Rydym wedi bod yn monitro'r sefyllfa yn **Sir Gaerfyrddin** yn ofalus, gan fod cysylltiad agos iawn rhyngddi a chynnydd mewn achosion yn **Llanelli**. Mae 8 o bob 10 o'r achosion yn gysylltiedig â'r dref ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u holrhain i bobl sydd wedi bod yn cymdeithasu.

Gwelwyd cynnydd cyflym mewn achosion yn **Abertawe**. Rydym yn ymchwilio i'r rhain i ganfod o ble mae'r cynnydd wedi deillio, ond mae'n ymddangos bod cyswllt rhyngddynt a phobl sydd wedi bod mewn cysylltiad agos ag eraill ar aelwydydd ac yn gymdeithasol.

Gwelwyd achosion cynyddol yng **Nghaerdydd** a chynnydd cyson ym **Mro Morgannwg**, sydd wedi'u cysylltu â phobl yn cyfarfod ac yn cymysgu yng nghartrefi ei gilydd; pobl sy'n cymdeithasu heb gadw pellter cymdeithasol, a rhai clystyrau bach mewn gweithleoedd.

Rydym yn trin diogelwch iechyd pobl o ddifrif yng Nghymru ac rydym wedi ystyried yn ofalus a oes angen inni gyflwyno cyfyngiadau lleol pellach i reoli lledaeniad y coronafeirws yn rhai o'r ardaloedd hyn yn y De.

Rydym wedi penderfynu cyflwyno cyfyngiadau lleol yn Llanelli, a ddaw i rym o 6pm ddydd Sadwrn. Bydd cyfyngiadau lleol hefyd yn dod i rym yn Abertawe a Chaerdydd o 6pm ddydd Sul.

Byddwn yn monitro'r sefyllfa yng Nghastell-nedd Port Talbot, Bro Morgannwg a Thorfaen yn ofalus dros y penwythnos ac yn ystyried a oes angen i'r ardaloedd hyn hefyd ddod o dan y drefn cyfyngiadau lleol yr un pryd ag Abertawe a Chaerdydd.

Mae hyn yn golygu, i bawb sy'n byw yn Llanelli, Cardydd ac Abertawe:

- Na fyddant yn cael mynd i mewn i'r ardal na'i gadael heb esgus rhesymol.
- Na fyddant, am y tro, yn cael cwrdd o dan do gyda phobl nad ydynt yn byw gyda nhw – ni fydd hawl i ffurfio aelwyd estynedig (neu 'swigen').
- Rhaid i bob safle trwyddedig beidio â gwerthu alcohol ar ôl 10pm.
- Rhaid i bawb sy'n gallu gweithio gartref wneud hynny.

Bellach, bydd rhan helaeth o boblogaeth y De, gan gynnwys ein prifddinas, yn byw mewn ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau lleol i ddiogelu eu hiechyd ac atal y coronafeirws rhag lledaenu.



Ac, wrth gwrs, mae cyfres o reolau newydd, sy'n berthnasol ledled Cymru – i bawb sy'n byw yng Nghymru – sy'n berthnasol i safleoedd trwyddedig, cyfarfod o dan do a gwisgo gorchuddion wyneb.

Gwyddom y gall pobl wneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu hardaloedd lleol – rydym yn gweld hyn yn digwydd ym mwrdeistref Caerffili a Chasnewydd.

Nid ydym am gadw'r cyfyngiadau lleol am fwy o amser nag sydd angen – a chyda chymorth pobl, dim ond mesur tymor byr fydd hyn, i'n helpu i reoli'r feirws.

Rydym yn parhau i gadw golwg fanwl ar y **Gogledd** lle mae'r darlun yn gymysg – mae'r achosion yn gyffredinol yn llawer is nag yr ydym yn ei weld yn y De ar hyn o bryd ond mae tystiolaeth bod y coronafeirws yn cynyddu mewn rhai rhannau o'r rhanbarth. Byddwn yn cyfarfod ag arweinwyr awdurdodau lleol y Gogledd yr wythnos nesaf i drafod y sefyllfa sy'n datblygu.

Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1049 (Cy. 235)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15)  
(Bro Morgannwg, Castell-nedd Port  
Talbot a Thorfaen) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae'r diwygiad yn dynodi bwrdeistrefi sirol Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen yn ardaloedd diogelu iechyd lleol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd

asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1049 (Cy. 235)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15)  
(Bro Morgannwg, Castell-nedd Port  
Talbot a Thorfaen) 2020**

*Gwnaed am 12.31 p.m. ar 28 Medi 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru*

*am 4.00 p.m. ar 28 Medi 2020*

*Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 28 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### **Enwi a dod i rym**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 28 Medi 2020.

### **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4A, ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (i) mewnosoder—

- “(j) Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot;
- (k) Bwrdeistref Sirol Torfaen;
- (l) Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg.”

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Am 12.31 p.m. ar 28 Medi 2020

---

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227), O.S. 2020/1035 (Cy. 229), O.S. 2020/1040 (Cy. 230) ac O.S. 2020/1043 (Cy. 232).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020

**Mark Drakeford**  
**Y Prif Weinidog**

28 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas â Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol unigol, a fydd yn awr at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys tair ardal diogelu iechyd leol newydd, sef y Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg, y Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ac y Bwrdeistref Sirol Torfaen. Yn benodol, mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn gwahardd gadael yr ardaloedd neu aros i ffwrdd oddi wrthynt neu fynd iddynt heb esgus rhesymol; yn darparu nad oes unrhyw aelwyd o fewn yr ardaloedd yn cael ei thrin fel rhan o

aelwyd estynedig ac yn gwahardd aelwydydd o'r fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig; ac yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd trwyddedig gau erbyn 11pm bob dydd. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardaloedd neu fynd iddynt yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 1 Hydref, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol, a gwneud hynny o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio<sup>1</sup> gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', Ar hyn o bryd, mae naw ardal diogelu iechyd leol<sup>2</sup>, a'r Rheoliadau hyn yn ymestyn bellach y cyfyngiadau a gofynion i Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen. Effaith hyn mewn perthynas â phob un o'r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;

<sup>1</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)

<sup>2</sup> sef Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerphilly Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd, 13 ward etholiadol Llanelli, a Dinas a Sir Caerdydd ac o Abertawe.



- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal honno rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan o'r ardal rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 28 Medi 2020. Rhaid adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol ar 1 Hydref neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdod lleol a chyrrff y GIG ar gyfer ardaloedd Bwrdeistrefi Sirol Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechyd lleol presennol. Bu'r dystiolaeth a'r cyngor a ddarparwyd ganddynt yn allweddol wrth bennu graddau'r ardal diogelu iechyd leol newydd

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio mewn cynhadledd i'r wasg ddoe fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a

gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoedduswydd eang gan y cyfryngau.

## **6. Aseiad effaith rheoleiddiol ac aseuadau eraill**

Ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fgythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

28 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 15) (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot a Thorfaen) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 p.m. heddiw. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 25 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Hydref 2020.

- (a) rhaid iddo gau'r fangre (i gwsmeriaid) am neu cyn 10.20 p.m. bob dydd, a
- (b) ni chaiff agor y fangre cyn 6.00 a.m. bob dydd.

(3) Er gwaethaf paragraff (2), caiff sinema gau'n hwyrach na 10.20 p.m. dim ond at ddiben gorffen dangos ffilm sy'n dechrau cyn 10.00 p.m.

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys i fangre agored mewn—

- (a) porthladd môr;

---

(1) 2003 p. 17.

(b) maes awyr.

(5) O ran ei gymhwysiad i fangre gwesty neu lety arall, nid yw paragraff (2) ond yn gymwys i'r rhannau hynny o'r fangre lle y gwerthir neu y cyflenwir alcohol i'w yfed yn y fangre.

(6) Nid yw paragraffau (1) a (2) yn caniatáu i'r fangre fod ar agor, nac i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi, yn groes i awdurdodiad sydd wedi ei ganiatáu neu ei roi mewn cysylltiad â'r fangre.”

(4) Yn rheoliad 12B—

(a) hepgorer paragraff (3)(b);

(b) ar ôl paragraff (4)(g) mewnosoder—

“(h) pan fo P yn eistedd mewn mangre lle y gwerthir bwyd neu ddiod, neu lle y'i darperir fel arall, i'w fwyta neu i'w hyfed yn y fangre.”

(5) Yn rheoliad 17(2), yn lle “neu 12(2), neu baragraff 7 o Atodlen 4A” rhodder “, 12(2) neu 12ZA(1) neu (2)”.

(6) Yn rheoliad 20(1)(a), yn lle “, neu baragraffau 5(1) neu 7(1)” rhodder “neu 12ZA(1) neu (2), neu baragraff 5(1)”.

(7) Yn Atodlen 4A, hepgorer paragraff 7.

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru  
Am 2.45 p.m. ar 24 Medi 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 12) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020

**Mark Drakeford**  
**Y Prif Weinidog**

24 Medi 2020



## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas â mangreoedd trwyddedig yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas â mangreoedd trwyddedig, gan gynnwys terfyn amser ar gyfer gwerthu alcohol, amseroedd agor a chau (gyda rhai eithriadau, ond mewn achosion o'r fath gwaherddir mangreoedd rhag gwerthu alcohol) a bod gweithredu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n eistedd yn dod yn fesur rhesymol penodol o dan ddyletswydd y rheini sy'n gyfrifol am y fangre i gymryd mesurau rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, a'i ledaenu. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan

Erthygl 8 (yr hawl i barch i'r teulu a bywyd preifat ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd â hwy, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio<sup>1</sup> gydag effaith o 22 Medi 2020, er mwyn cyflwyno gofynion ar y rhan fwyaf o fangreoedd trwyddedig mewn ardaloedd diogelu iechyd leol i gau erbyn 11pm ac i beidio ag agor cyn 6am. Mae'r darpariaethau hyn bellach yn cael eu disodli gan ofynion newydd sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Bydd yn cael yr effaith ganlynol:

- rhaid i fangreoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed yn y fangre roi'r gorau i werthu am 10pm, cau erbyn 10.20pm a pheidio ag ailagor tan 6am;
- mae'n ofynnol i'r mangreoedd hyn ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n eistedd yn unig;
- mangreoedd sydd â thrwydded i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y fangre i roi'r gorau i werthu alcohol erbyn 10pm;

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn y gofyniad i wisgo gorchuddion wyneb i gynnwys cwsmeriaid mewn mangre lletygarwch dan do oni bai eu bod wrth fwrdd ac yn bwyta neu'n yfed, a staff pan fônt yn ardaloedd cyhoeddus y fangre.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 24 Medi 2020.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau technegol a chanlyniadol i'r prif Reoliadau.

---

<sup>1</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd etc) 2020 OS 2020/1022 (Cy. 227)

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Aseiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## **5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdodau lleol a chyrrff y GIG, yn ogystal â chynrychiolwyr y sector lletygarwch yng Nghymru.

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Amlinellais fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn mewn darllediad ar y teledu fin nos ar 22 Medi; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoedduswydd eang gan y cyfryngau.

## **6. Aseiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

24 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio)  
(Rhif 12) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 pm heddiw. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 21 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Hydref 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

**TEITL** Diogelu Cymru rhag y Coronafeirws

**DYDDIAD** 22 Medi 2020

**GAN** Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford

Fore heddiw cymerais ran mewn cyfarfod COBR ar draws y DU. Cafodd y cyfarfod ei gadeirio gan Brif Weinidog y DU ac roedd Prif Weinidogion yr Alban a Gogledd Iwerddon a hefyd ddirprwy Brif Weinidog Gogledd Iwerddon yn bresennol.

Cafodd cyfres o gamau gweithredu ar draws y DU eu trafod yn ystod y cyfarfod. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno ar y cyd ar draws y pedair gwlad er mwyn ymateb i'r cynnydd yn nhrosglwyddiad y coronafeirws.

Croesewais ymrwymiad Prif Weinidog y DU i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar draws y DU mewn modd rheolaidd a dibynadwy – gan sicrhau bod y llywodraethau datganoledig yn chwarae rhan glir a phwysig yn y broses honno.

Dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweld cynnydd cyffredinol yn nifer yr achosion o'r coronafeirws ar draws Cymru – nid yw'r cynnydd hwn wedi digwydd i'r un graddau ar draws y wlad. Mae nifer yr achosion o'r feirws wedi cynyddu'n fwy sylweddol ac yn gyflymach mewn rhai ardaloedd o'u cymharu ag ardaloedd eraill. Dyma'r rheswm dros gyflwyno cyfyngiadau lleol mewn chwe ardal awdurdod lleol yn Ne Cymru er mwyn diogelu iechyd pobl.

Cafodd mesurau newydd ar gyfer Cymru gyfan eu cyflwyno yn yr adolygiad diwethaf o gyfyngiadau'r coronafeirws er mwyn helpu i reoli lledaeniad y feirws. Mae'r rhain yn cynnwys gofyn i bawb dros 11 oed wisgo gorchudd wyneb mewn mannau cyhoeddus dan do a chyfyngiad newydd ar nifer y bobl a all gyfarfod dan do. Mae aelwydydd estynedig wedi'u gwahardd ar hyn o bryd yn yr ardaloedd sydd o dan gyfyngiadau lleol.

Gwnaeth pedair Llywodraeth y DU gytuno heddiw ar yr angen i gymryd rhagor o gamau atal ar yr un pryd er mwyn rheoli lledaeniad y feirws.

Mae rhai o'r camau hyn, gan gynnwys yr angen i bobl weithio gartref lle y bo'n bosibl, eisoes mewn grym yng Nghymru ers diwedd mis Mawrth. Rydym hefyd yn parhau i annog pobl i feddwl yn ofalus am y bobl y maent yn cyfarfod â nhw ac ystyried a oes angen teithio.

Byddwn, fodd bynnag, yn cyflwyno rhai mesurau newydd yng Nghymru a fydd yn dod i rym ar yr un pryd â'r mesurau eraill ar gyfer y DU er mwyn helpu i atal argyfwng arall o ran y coronafeirws.

O 6pm nos lau bydd yn rhaid i fusnesau lletygarwch yng Nghymru - gan gynnwys tafarnau, caffis, bwytai a chasinos - gau am 10pm. Bydd yn rhaid iddynt hefyd gynnig gwasanaeth wrth y bwrdd yn unig. Bydd yn rhaid i siopau diodydd trwyddedig, gan gynnwys archfarchnadoedd, hefyd roi'r gorau i werthu alcohol am 10pm.

Mae angen i bawb helpu er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth o ran y coronafeirws yng Nghymru. Mae angen i bawb ddilyn y rheolau a'r canllawiau a chymryd y camau i ddiogelu eu hunain a'u hanwyliaid. Gyda'n gilydd, fe allwn ni ddiogelu Cymru.

# Eitem 4.3

## **SL(5)620 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020**

### **Cefndir a Diben**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Gwneir y Rheoliadau o dan adran 45C(1), adran (3)(c), adran 45F(2) ac adran 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio<sup>1</sup> gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', ac mae'r Rheoliadau hyn yn ymestyn bellach y cyfyngiadau i ardal diogelu iechyd leol arall sy'n cynnwys 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin.<sup>2</sup> Effaith hyn mewn perthynas â'r ardal newydd yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal honno ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;
- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal honno rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan o'r ardal rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rheoliad 12 o'r prif Reoliadau, sef y rhwymedigaeth i gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â'r coronafeirws, neu'r risg o'i ledaenu. O 24 Medi<sup>3</sup> gwaherddir pob mangre drwyddedig rhag gwerthu alcohol ar ôl 10.00 p.m. a rhaid iddyn nhw gau erbyn 10.20 p.m. fan hwyrach. Mae'r darpariaethau hyn bellach yn cael eu hymestyn i gynnwys mangreodd sydd, er nad ydynt wedi'u trwyddedu, yn caniatáu i gwsmeriaid 'ddod â'ch alcohol eich hun'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i

<sup>1</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8)(Caerffili) 2020 (OS 2020/961 (Cy. 215))

<sup>2</sup> Fel y nodir ym mharagraff 1(g) o Atodlen 4A i'r prif Reoliadau, y rhain yw: Bigyn; Bynea; Dafen; Elli; Felinfoel; Glanymor; yr Hendy; yr Hengoed; Llangennech; Lliedi; Llwynhendy; Tyisha; a Swiss Valley.

<sup>3</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 OS 2020/1035 (Cy. 229)



gwsmeriaid archebu, cael eu gweini, a bwyta eu bwyd a'u diod wrth eistedd (heblaw wrth y bar). Rhaid i'r fangre hefyd gau erbyn 10.20 p.m. ac ni chaiff ailagor cyn 6.00 a.m.

Daeth y Rheoliadau i rym am 6.00pm ar 26 Medi 2020. Rhaid i'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n cael eu cyflwyno gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol gael eu hadolygu ar 1 Hydref, neu cyn hynny, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### **1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Rheoliadau hyn yn tynhau'r cyfyngiadau sy'n ymwneud â Covid-19 i 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. O'r herwydd, mae'r Rheoliadau hyn yn ymgysylltu â hawliau dynol amrywiol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 / y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r crynodeb yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pa hawliau sy'n cael eu cyffwrdd a pham y gellir cyfiawnhau cyffwrdd hawliau o'r fath, sef er mwyn dilyn y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o Covid-19 a'i ledaeniad yn yr 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn nodi'r canlynol o'r Memorandwm Esboniadol:

*"Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a*





*berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardaloedd neu fynd iddynt yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed."*

Mae'r Pwyllgor yn nodi hefyd, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 1 Hydref, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau, a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas â'r 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin, a'u hadolygu o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

## **2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus nac asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bygythiad difrifol ac uniongyrchol y coronafeirws a'r angen am ymateb brys o ran iechyd y cyhoedd. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol mae hyn am y rhesymau a ganlyn:

- mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau drwy gydol y newidiadau i'r Rheoliadau;
- rhoddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wybod i'r cyhoedd, mewn cynhadledd i'r wasg ar 25 Medi 2020, o'r bwriad i osod cyfyngiadau a gofynion ar yr 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin; a
- mae'r newidiadau i'r Prif Reoliadau wedi cael cyhoeddusrwydd eang gan y cyfryngau.

## **Y goblygiadau yn sgîl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**

Dim.

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### **Cynghorwyr Cyfreithiol**

### **Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

**30 Medi 2020**



*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1040 (Cy. 230)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13)  
(Llanelli etc.) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

- (a) yn dynodi 13 o wardiau etholiadol (y cyfeirir atynt mewn deddfwriaeth fel adrannau etholiadol) yn ardal Llanelli yn ardal diogelu iechyd leol sy'n ddarostyngedig i gyfyngiadau a gofynion penodol;
- (b) yn darparu, at ddibenion penodol (oriau agor a'r gofyniad i gwsmeriaid eistedd), fod

mangre agored nad yw wedi ei thrwyddedu i werthu neu gyflenwi alcohol, ond sy'n caniatáu i bobl yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, i fod yn ddarostyngedig i'r un gofynion â mangre sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 1040 (Cy. 230)**

**IECHYD Y CYHOEDD,  
CYMRU**

**Rheoliadau Diogelu Iechyd  
(Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif  
2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13)  
(Llanelli etc.) 2020**

*Gwnaed am 1.31 p.m. ar 25 Medi 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd  
Cymru am 5.30 p.m. ar 25 Medi 2020*

*Yn dod i rym am 6.00 p.m. ar 26 Medi 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur

---

(1) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### **Enwi a dod i rym**

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020 a deuant i rym am 6.00 p.m. ar 26 Medi 2020.

### **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020**

2.—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 12(6), yn lle "rheoliad 12ZA" rhodder "rheoliadau 12ZA a 12ZB".

(3) Ar ôl rheoliad 12ZA mewnosoder—

#### **"Cymhwyso cyfyngiadau penodol i fangreodd "dod â'ch diod eich hun"**

**12ZB.** Mae rheoliadau 12(2B) i (2E) a 12ZA(2) i (4) yn gymwys i fangre agored nad yw wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre, ond sy'n caniatáu i gwsmeriaid yfed eu halcohol eu hunain yn y fangre, fel y maent yn gymwys i fangre agored sydd wedi ei hawdurdodi ar gyfer gwerthu neu gyflenwi alcohol i'w yfed yn y fangre."

(4) Yn Atodlen 4A, ym mharagraff 1, ar ôl paragraff (f) mewnosoder—

"(g) yr ardal sy'n cynnwys yr adrannau etholiadol(2) a ganlyn yn Sir Gaerfyrddin—

(i) Bigyn;

(ii) Bynea;

(iii) Dafen;

---

(1) O.S. 2020/725 (Cy. 162), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/752 (Cy. 169), O.S. 2020/803 (Cy. 176), O.S. 2020/820 (Cy. 180), O.S. 2020/843 (Cy. 186), O.S. 2020/867 (Cy. 189), O.S. 2020/884 (Cy. 195), O.S. 2020/912 (Cy. 204), O.S. 2020/961 (Cy. 215), O.S. 2020/985 (Cy. 222), O.S. 2020/1007 (Cy. 224), O.S. 2020/1011 (Cy. 225), O.S. 2020/1022 (Cy. 227) ac O.S. 2020/1035 (Cy. 229).

(2) Pennwyd eu henwau a'u hardaloedd (ymhlith ardaloedd etholiadol eraill) gan Orchymyn Sir Gaerfyrddin (Trefniadau Etholiadol) 1998 (O.S. 1998/3136).

- (iv) Elli;
- (v) Felin-foel;
- (vi) Glan-y-môr;
- (vii) Yr Hendy;
- (viii) Hengoed;
- (ix) Llangennech;
- (x) Lliedi;
- (xi) Llwynhendy;
- (xii) Tyisha;
- (xiii) Swiss Valley.”

*Mark Drakeford*

Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

Am 1.31 p.m. ar 25 Medi 2020

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020

**Mark Drakeford**  
**Y Prif Weinidog**

25 Medi 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020 ("y prif Reoliadau").

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau sy'n cael eu gorfodi yn awr mewn perthynas â 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli, a gwneud darpariaeth mewn perthynas ag eiddo sy'n caniatáu 'dod â'ch rhai eich hun' yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

### Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae parhau i addasu'r gofynion a wnaed gan y Rheoliadau gwreiddiol drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae'r darpariaethau hyn yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae'r Rheoliadau'n gosod cyfyngiadau a gofynion mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol unigol, a fydd yn awr at ddibenion y prif Reoliadau hefyd yn cynnwys 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli. Yn benodol, mae'r cyfyngiadau a'r gofynion hyn yn gwahardd gadael yr ardaloedd neu aros i ffwrdd oddi wrthynt neu fynd iddynt heb esgus rhesymol; yn darparu nad oes unrhyw aelwyd o fewn yr ardaloedd yn cael ei thrin fel rhan o aelwyd estynedig ac yn gwahardd aelwydydd o'r



fath rhag ffurfio aelwydydd estynedig; ac yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd trwyddedig gau erbyn 11pm bob dydd. Bydd, neu gall, y cyfyngiadau a'r gofynion hyn gyffwrdd â hawliau o dan Erthygl 8 (yr hawl i barch am y teulu a bywyd preifat); Erthygl 9 (rhyddid crefydd, cydwybod a chred); Erthygl 11 (rhyddid gwybodaeth); Erthygl 14 (gwahardd gwahaniaethu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (Diogelu Eiddo). Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y gellir cyfiawnhau'r ymyrraeth, i'r graddau bod y cyfyngiadau a'r gofynion a orfodir gan y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawliau hynny neu'n ymyrryd arnynt, gan fod yr ymyrraeth yn anelu at y nod dilys o ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad a berir gan yr achosion cynyddol o'r coronafeirws a'i ledaeniad yn yr ardaloedd hyn ac yn ehangach a'i bod yn gymesur i'r nod hwnnw. Mae'r gofynion i beidio â gadael yr ardaloedd neu fynd iddynt yn ddarostyngedig i esgus rhesymol gan berson i wneud hynny, sy'n cynnwys gallu defnyddio gwasanaethau hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus a darparu gofal i bobl sy'n agored i niwed. At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru, erbyn 1 Hydref, adolygu'r angen am y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau a'u cymesuredd o ran yr hyn y maent yn ceisio ei gyflawni mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol, a gwneud hynny o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn ar gael yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

### **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Cafodd y prif Reoliadau eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2).

Cafodd y prif Reoliadau eu diwygio<sup>1</sup> gydag effaith o 8 Medi 2020 i gyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas ag 'ardal diogelu iechyd leol', Ar hyn o bryd, mae chwe ardal diogelu iechyd leol<sup>2</sup>, a'r Rheoliadau hyn yn ymestyn bellach y cyfyngiadau i ardal diogelu iechyd leol arall sy'n cynnwys 13 ward etholiadol yn ardal Llanelli yn Sir Gaerfyrddin<sup>3</sup>. Effaith hyn mewn perthynas â'r ardaloedd newydd hyn yw:

- darparu na chaiff unrhyw aelwyd o fewn yr ardal ei thrin fel pe bai'n rhan o aelwyd estynedig a gwaherddir aelwyd o'r fath rhag ffurfio aelwyd estynedig;

<sup>1</sup> Gweler Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020 OS 2020/961 (Cy. 215)

<sup>2</sup> sef Cynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerphilly Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bwrdeistref Dinas a Sir Casnewydd

<sup>3</sup> Fel y nodir ym mharagraff 1(g) o Atodlen 4A i'r prif Reoliadau, y rhain yw: Bigyn; Bynea; Dafen; Elli; Felinfoel; Glanymor; Hendy; Hengoed; Llangennech; Lliedi; Llwynhendy; Tyisha; a Chwm y Swistir.

- gwahardd personau sy'n byw yn yr ardal honno rhag gadael yr ardal neu aros i ffwrdd oddi wrthi heb esgus rhesymol;
- ei gwneud yn ofynnol i drigolion yr ardal weithio gartref, oni bai nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt wneud hynny;
- gwahardd pobl o'r tu allan o'r ardal rhag mynd yno heb esgus rhesymol. Nid yw mynd i'r ardal ar gyfer gwaith yn esgus rhesymol, os yw'n rhesymol ymarferol i'r gwaith hwnnw gael ei wneud y tu allan i'r ardal.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn diwygio rheoliad 12 o'r prif Reoliadau, y rhwymedigaeth i gymryd pob cam rhesymol i leihau'r risg o ddod i gysylltiad â chlefyd coronaidd y galon neu ledaeniad y clefyd. O 24 Medi<sup>4</sup>, gwaherddir pob safle trwyddedig rhag gwerthu alcohol ar ôl 10.00 p.m. a rhaid iddo gau erbyn 10.20 p.m fan hwyrach. Mae'r darpariaethau hyn bellach yn cael eu hymestyn er mwyn cynnwys safleoedd sydd, er nad ydynt wedi'u trwyddedu, yn caniatáu i gwsmeriaid 'ddod â'ch alcohol eich hun'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gwsmeriaid archebu o'r bwyd a'r ddiod a'u bwyta tra byddant yn eistedd (ac eithrio yn y bar). Rhaid i'r safle hefyd gau erbyn 10.20 p.m. ac ni chaiff ailagor cyn 6.00 a.m.

Daw'r Rheoliadau i rym am 6.00 p.m. ar 26 Medi 2020. Rhaid adolygu'r cyfyngiadau a'r gofynion a gyflwynir gan y diwygiadau hyn mewn perthynas ag ardaloedd diogelu iechyd lleol ar 1 Hydref neu cyn y dyddiad hwnnw, ac o leiaf unwaith bob saith diwrnod ar ôl y dyddiad hwnnw.

Mae'n hollbwysig cymryd pob mesur rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r Prif Swyddogion Meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod cyflwyno'r gofynion a'r cyfyngiadau hyn drwy wneud y diwygiadau i'r prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y mae'r prif Reoliadau'n ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

<sup>4</sup> Gwelir yr Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 12) 2020 (SI 2020/1035 (W.229)).

Yn ehangach, cafodd unigolion a busnesau wybod am y cyfyngiadau drwy ddarllediadau gwybodaeth i'r cyhoedd parhaus ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru a minnau. Wrth wneud y Rheoliadau heddiw fe fu trafodaethau rheolaidd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ac â'r awdurdod lleol a chyrrff y GIG ar gyfer yr ardal Llanelli yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda'r Timau Rheoli Digwyddiadau yn yr ardaloedd diogelu iechyd lleol presennol. Bu'r dystiolaeth a'r cyngor a ddarparwyd ganddynt yn allweddol wrth bennu graddau'r ardal diogelu iechyd leol newydd

Ynghyd â Gweinidogion eraill a Llywodraeth Cymru, rwyf wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i unigolion a busnesau gydol y newidiadau dilynol i'r Rheoliadau. Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol esbonio mewn cynhadledd i'r wasg yn gynharach heddiw fod bwriad i osod y cyfyngiadau a'r gofynion a gyflawnir drwy'r Rheoliadau hyn; mae'r newidiadau arfaethedig wedi cael cyhoedduswydd eang gan y cyfryngau.

## **6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder fel rhan o'r ymateb parhaus i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.



Elin Jones AS  
Llywydd  
Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN

25 Medi 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 13) (Llanelli etc.) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 6.00 pm yfory. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 22 Hydref 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 6 Hydref 2020.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[YP.PrifWeinidog@llyw.cymru](mailto:YP.PrifWeinidog@llyw.cymru) • [ps.firstminister@gov.wales](mailto:ps.firstminister@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/3171/20

Mick Antoniw MS  
Legislation, Justice and Constitution Committee  
Ty Hywel  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN  
[Mick.Antoniw@senedd.wales](mailto:Mick.Antoniw@senedd.wales)

28 September 2020

Dear Mick,

## Welsh Government's Supplementary LCM (Memorandum No 4) on the Agriculture Bill

Thank you and members of the Legislation, Justice and Constitution Committee for your scrutiny of the amendments made to provisions relating to Wales in the Agriculture Bill during the House of Lords' amending stages. I committed to write to the Committees and Members of the Senedd should there be any further amendments requiring the legislative consent of the Senedd prior to the plenary debate.

Introduced in the House of Commons, the Agriculture Bill completed Report Stage in the House of Lords on 22 September. We expect the Bill to receive Royal Assent by the end of October.

I can inform the Committee three further government amendments were made to the Bill. Under Standing Order 29.1(i) and 29.2(iii), the Welsh Government is required to lay a LCM in the Senedd normally no later than 2 weeks after those amendments are tabled or agreed, but due to the advanced stage of the Bill and therefore the lack of time available for normal Senedd scrutiny, I am writing to outline the amendments made. Full details can be found in Supplementary Legislative Consent Memorandum no.4.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Amendment to Schedule 5 (and related provision) with regard to references to retained direct EU legislation

After the amendment was made to paragraph 5, Welsh Government Legal Services identified another potential issue with the provision, arising from the different possible interpretations of Article 138 of the Withdrawal Agreement and its implications on EU legislation relating to rural development, and the Common Agricultural Policy more generally.

Amendments have been tabled in relation to RDP, Common Market Organisation and Apiculture which confirm the specified legislation does become retained EU law on IP completion day, and ensure the powers given to the Welsh Ministers in Schedule 5 are operable;

A narrow financial assistance power has been included which allows the Welsh Ministers to pay those people who have ongoing agreements under the current RDP scheme after the EU funding has been exhausted. This power is designed to allow the Welsh Ministers to continue to fulfil their contractual obligations if Technical Measures cannot be agreed with the EU pursuant to Article 138(5) of the Withdrawal Agreement to bring the programme to an end. It is limited in scope, and can only be used to give financial assistance to those who have ongoing, existing agreements/contracts;

A regulation-making power to amend retained EU legislation in relation to Apiculture has been included. This ensures in the future, the retained EU apiculture framework could be amended to implement a new scheme. A technical amendment will be tabled at Third Reading on October 1 to confirm this regulation-making power is subject to the negative procedure;

These are now Clauses 17 (continuing EU programmes: power to provide financial assistance), Clause 18 (retained direct EU legislation), Clause 55 (interpretation), Clause 59 (financial provision), Clause 60 (extent) and Schedule 5 – Paragraph 4.

## Food Security

Clause 19 (Duty to report to Parliament on UK food security) places a duty on the Secretary of State to report to Parliament on data relevant to UK food security. During scrutiny, Committees raised concern around the reporting frequency on food security, I accepted more frequent reporting may be necessary given the potential pace of development in this area. This clause was also subject to much debate during the House of Lords passage.

A UK Government amendment has been made to increase the reporting frequency of the Secretary of State from every 5 years to every 3 years with a requirement to lay the first report under clause 19 on or before the “relevant day” as defined in the Bill.

